Gweinyddiaeth CYFIAWNDER
Ministry of JUSTICE

DEFNYDDIO RHEITHGORAU DWYIEITHOG (CYMRAEG A SAESNEG) MEWN RHAI TREIALON TROSEDDOL YNG NGHYMRU

Ymateb i'r Ymgynghoriad

CP(R) 08/10

9 Mawrth 2010

OFFICE FOR CRIMINAL JUSTICE REFORM
Criminal Justice System: working together for the public

DEFNYDDIO RHEITHGORAU DWYIEITHOG (CYMRAEG A SAESNEG) MEWN RHAI TREIALON TROSEDDOL YNG NGHYMRU

Ymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol, sy'n rhan o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

OFFICE FOR
CRIMINAL JUSTICE REFORM
Criminal Justice System: working together for the public

Gweinyddiaeth CYFIAWNDER
Ministry of JUSTICE

Ynghylch yr ymgynghoriad hwn

At:	Roedd yr ymgynghoriad hwn wedi cael ei anelu at aelodau'r cyhoedd sydd â diddordeb mewn cyfraith droseddol ac yn swyddogaeth y Gymraeg.
Hyd:	O 19 Rhagfyr 2005 tan 31 Mawrth 2006

Cynnwys

Cyflwyniad a manylion cysylltu	2
Y Cefndir	3
Crynodeb o’r ymatebion	4
Ymatebion i gwestiynau penodol	5
Y Casgliad a’r camau nesaf	17
Meini prawf yr ymgynghoriad	22
Atodiad A – Rhestr o’r ymatebwyr	23

Cyflwyniad a manylion cysylltu

Y ddogfen hon yw'r adroddiad yn dilyn yr ymgynghoriad ynghylch y papur ymgynghori "Defnyddio Rheithgorau Dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) mewn Rhai Treialon Troseddol yng Nghymru".

Bydd yn ymwneud â'r canlynol:

- cefndir yr adroddiad
- crynodeb o'r ymatebion i'r adroddiad
- ymateb manwl i'r cwestiynau penodol a godir yn yr adroddiad
- y camau nesaf ar ôl yr ymgynghoriad hwn.

Mae modd cael copïau o'r papur ymgynghori a fersiynau o'r adroddiad hwn mewn fformatau gwahanol drwy gysylltu â Guy Wilson yn y cyfeiriad isod:

Better Trials Unit
Office for Criminal Justice Reform
Ministry of Justice
102 Petty France
London SW1H 9AJ
Ffôn: 020 3334 6072
E-bost: guy.wilson@justice.gsi.gov.uk

Y Cefndir

Cyhoeddwyd y papur ymgynghori "Defnyddio Rheithgorau Dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) mewn Rhai Treialon Troseddol yng Nghymru" ar 19 Rhagfyr 2005. Roedd yn gwahodd sylwadau ynghylch pa mor ddymunol fyddai dewis rheithgorau mewn rhai treialon troseddol yng Nghymru y byddai eu holl aelodau'n gallu'r Gymraeg a'r Saesneg.

Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn mynnu y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru, i'r graddau mae hynny'n briodol yn yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol. Fodd bynnag, nid oes dim darpariaeth ar gyfer dewis rheithgor y mae ei holl aelodau'n gallu'r Gymraeg a'r Saesneg.

Eglurodd y papur nad oedd y Llywodraeth wedi penderfynu a oedd rheithgorau dwyieithog yn ddymunol mewn egwyddor ai peidio, ac na fyddai'n ystyried hyn ymhellach nes i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Ystyr "dwyieithog" yn y papur oedd cael gafael da ar y Gymraeg a'r Saesneg.

Gofynnwyd 5 cwestiwn yn y papur. Bwriad y cwestiynau hyn oedd mesur y gefnogaeth ar gyfer defnyddio rheithgorau dwyieithog a gweld beth oedd y dewisiadau a ffafrir ar gyfer y gweithdrefnau gwahanol y gellid eu defnyddio i'w dewis a'u penodi mewn treialon troseddol.

Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 31 Mawrth 2006 ac mae’r adroddiad hwn yn crynhoi’r ymatebion, gan gynnwys sut y bu i’r broses ymgynghori ddylanwadu ar ffurf derfynol/datblygiad pellach y polisi/cynnig yr ymgynghorwyd arno.

Ceir rhestr o'r ymatebwyr yn Atodiad A.

Crynodeb o’r ymatebion

1. Cafwyd 24 ymateb i’r ymgynghoriad. Cyflwynodd y farnwriaeth ac aelodau eraill o'r proffesiwn cyfreithiol nifer fawr o'r ymatebion. Cafwyd 8 gan aelodau unigol o'r farnwriaeth. Cafwyd nifer o ymatebion gan gyrff sydd â diddordeb mewn defnyddio'r Gymraeg hefyd.

2. Cafodd yr ymatebion eu dadansoddi yn benodol ar gyfer agweddau newydd posibl yng nghyswllt y cwestiwn canolog ynghylch ymyrraeth rheithgorau dwyieithog ar yr egwyddor o ddewis rheithgorau ar hap.

3. Roedd y rhan fwyaf o'r rheini a ymatebodd o blaid rheithgorau dwyieithog mewn egwyddor ac mae'r Llywodraeth wedi ystyried y ffaith hon wrth baratoi ei hymateb. Darparwyd dwy brif ddadl ynghylch pam y dylid diystyru egwyddor dewis rheithgorau ar hap yn achos rheithgorau dwyieithog. Y cyntaf oedd bod y gwaharddiad cyfreithiol presennol ar ddewis rheithgor dwyieithog yng Nghymru yn anghyson â deddfwriaeth sy'n rhoi'r hawl i'r rheini sy'n cymryd rhan mewn treialon yng Nghymru ddefnyddio'r Gymraeg yn y llys. Yr ail oedd y byddai rheithgorau dwyieithog yn golygu bod modd rhoi'r dystiolaeth orau, hynny yw y byddai tyst neu siaradwr arall sy'n defnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg bob amser yn cael ei ddeall yn uniongyrchol gan y rheithgor, yn hytrach na drwy gyfieithydd ar y pryd.

4. Ar ben hynny, roedd yr ymatebwyr wedi rhoi amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch sut y byddai rheithgorau'n gweithio'n ymarferol.

Ymatebion i gwestiynau penodol

Cwestiwn 1: Gan ystyried y ffactorau sy'n cael eu disgrifio yn Rhannau 3 a 4 y papur hwn, a fyddai modd cyfiawnhau egwyddor cyflwyno rheithgorau dwyieithog mewn achosion priodol yng Nghymru?

Cyflwynodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau (19 o 22) o'r farn bod cyfiawnhad dros reithgorau dwyieithog mewn egwyddor. Roedd tri yn anghytuno. O'r ddau ymatebwr arall, roedd un yn niwtral ar y mater hwn ac nid oedd y llall wedi mynegi safbwynt.

Y brif ddadl a gyflwynwyd gan yr ymatebwyr oedd o blaid rheithgorau dwyieithog oedd bod cyfiawnhad drostynt oherwydd cydraddoldeb statudol y Gymraeg a'r Saesneg yn llysoedd Cymru. Mynegwyd y farn hefyd bod diffyg rheithgorau dwyieithog yn golygu nad oedd y ddwy iaith yn cael eu trin yn wirioneddol gyfartal ar hyn o bryd.

Cafwyd ail ddadl droeon hefyd. Roedd nifer o'r rheini a oedd yn cefnogi egwyddor rheithgorau dwyieithog yn meddwl bod y sefyllfa bresennol yn golygu bod y tystion a oedd yn rhoi eu tystiolaeth yn Gymraeg dan anfantais pan nad oedd y rheithgor yn deall eu tystiolaeth yn uniongyrchol ond drwy gyfieithydd ar y pryd. Roeddent o'r farn bod y siaradwr Saesneg yn cael yr hawl i gael ei ddeall yn uniongyrchol, gyda mecanwaith statudol yn adran 10 Deddf Rheithgorau 1974 i sicrhau meistrolaeth ddigonol ar y Saesneg ymysg rheithwyr.

Yn ogystal â gwneud y pwyntiau uchod roedd Pwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor ar yr Iaith Gymraeg yn gweld diffyg cymesuredd yng nghyswllt achosion nad oedd angen rheithgor ar eu cyfer, megis y rheini mewn llysoedd ynadon, lle trefnid y byddai'r ynadon yn wirioneddol ddwyieithog, ond ni allai treialon rheithgor fod yn wirioneddol ddwyieithog yn ymarferol oherwydd byddai'r broses o ddewis rheithgor ar hap bob amser yn golygu y byddai o leiaf un siaradwr nad yw ond yn deall Saesneg.

Roedd y rheini a oedd yn anghytuno â'r syniad o reithgorau dwyieithog i gyd yn aelodau o'r farnwriaeth. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o aelodau'r

farnwriaeth a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn ystyried bod rheithgorau dwyieithog yn iawn mewn egwyddor.

Er bod Cyngor Barnwyr Cylchdaith EM yn cydnabod swyddogaeth gyfartal y Gymraeg a'r Saesneg, roedd yn pwysleisio yn ei ymateb bod gwahaniaeth barn yn y Cyngor ynghylch rheithgorau dwyieithog.

Ymatebodd Cymdeithas y Bar Troseddol drwy gefnogi'r egwyddor, ond ategodd ei safbwynt gan haeru bod hyn yn amodol ar ddiwallu gofynion dewis ar hap, tegwch, ymarferoldeb a chost resymol. Yn benodol, cyflwynodd awgrym y dylid ond penodi rheithgor dwyieithog pan roedd y partïon yn cytuno, a bod yr erlyniad a'r amddiffyniad yn cael hawl i gyflwyno feto.

Roedd barn y barnwyr yn gymysg. Dywedodd y Barnwr Dafydd Hughes fod rheithgorau dwyieithog yn cyd-fynd â'r "Prif Amcan" sydd yn y Rheolau Trefniadaeth Droseddol sef bod achosion troseddol yn cael eu trin yn gyfiawn. Fodd bynnag, roedd y Barnwr John Rogers o'r farn bod rheithgorau dwyieithog yn mynd i'r afael â phroblem nad oedd yn bodoli. Roedd o'r farn bod cyfieithwyr ar y pryd yn ddigonol ac nid oedd dim un cais i apelio erioed wedi codi yn sgil honiad o gam gyfieithu fel sail dros yr apêl.

Safbwynt arall oedd bod goramcangyfrif o nifer y siaradwyr Cymraeg a oedd yn ddigon cymwys mewn gwirionedd i ddilyn achos troseddol. Fodd bynnag, roedd pobl eraill o'r farn nad oedd yr angen am gyfieithwyr ar y pryd yn golygu bod modd cyflawni cyfiawnder, ac roeddent o'r farn nad oedd nifer y siaradwyr Cymraeg a oedd yn meddu ar ddigon o wybodaeth o'r iaith yn debyg o fod yn broblem.

Cwestiwn 2: A yw'r cynnig am reithgorau dwyieithog yn cyd-fynd ag egwyddor dewis ar hap?

Unwaith eto, cyflwynodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. O'r 20 a gyflwynodd sylwadau, roedd 15 o'r farn y byddai'r cynnig yn cyd-fynd â dewis ar hap ac roedd 4 yn anghytuno. Nid oedd un ymatebwr wedi mynegi barn.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd o blaid rheithgorau dwyieithog mewn egwyddor yn derbyn y byddai'n effeithio ar yr egwyddor o ddewis ar hap i ryw raddau mewn achosion lle byddai rheithgor dwyieithog yn cael ei benodi. Dywedasant nad oedd y dewis erioed wedi bod yn gyfan gwbl ar hap, gan awgrymu mai'r gwir gwestiwn oedd a fyddai'r dewis yn ddigon ar hap dan gynllun rheithgor dwyieithog, ac a fyddai'r gostyngiad yn y raddfa o ddewis ar hap yn gallu cael ei gyfiawnhau gan y manteision a fyddai'n deillio o hynny, sef ar ffurf dealltwriaeth well y rheithgor o'r dystiolaeth.

Roedd Bar Cylchdaith Cymru a Chaer yn derbyn y byddai rheithgorau dwyieithog yn effeithio ar ddewis ar hap ond roeddent yn meddwl y byddai hynny ar raddfa dderbyniol.

Roedd Pwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor ar yr Iaith Gymraeg yn dadlau bod egwyddor dewis ar hap eisoes wedi'i gyfyngu gan adran 10 Deddf Rheithgorau 1974, a oedd yn mynnu bod rheithwyr i gael eu heithrio os nad oedd modd iddynt ddeall Saesneg yn ddigon da. Dywedodd y Pwyllgor hefyd nad oedd dim rheithwyr yn cael eu gwysio o ardaloedd prin eu poblogaeth nad oeddent yn agos at Lys y Goron. Felly roedd cyfyngiadau eisoes wedi cael eu rhoi ar yr egwyddor o ddewis ar hap oherwydd y manteision canfyddedig roedd hynny'n eu creu. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod mantais cyflwyno rheithgorau dwyieithog yn drech na chost lleihau'r egwyddor o ddewis ar hap.

Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn bod digon o siaradwyr Cymraeg ar gael i rwystro unrhyw leihad difrifol yn yr egwyddor o ddewis ar hap ond y gallai problemau godi yn yr ardaloedd mwy Seisnig. Awgrymwyd y gellid symud y treialon hynny i ardaloedd lle'r oedd mwy o siaradwyr Cymraeg ar gael i'w gwysio.

Roedd y rheini a oedd o'r farn bod rheithgorau dwyieithog yn anghywir mewn egwyddor hefyd o'r farn nad oedd rheithgorau dwyieithog yn cyd-fynd â'r egwyddor o ddewis ar hap.

Un pryder a godwyd gan y Cyngor Barnwyr Cylchdaith ac eraill oedd effaith ganlyniadol bosibl rheithgorau dwyieithog Cymraeg-Saesneg ar gyfer ieithoedd lleiafrifol eraill. Awgrymwyd y gallai grwpiau eraill o siaradwyr ieithoedd ar wahân i'r Saesneg ymateb drwy ofyn am gael eu trin mewn ffordd debyg mewn treialon troseddol, ar yr un sail y byddai gwell tystiolaeth yn cael ei rhoi petai'n cael ei rhoi'n uniongyrchol, heb yr angen am gyfieithydd ar y pryd. Fodd bynnag, dadleuwyd i'r gwrthwyneb nad oedd gan ieithoedd eraill safle statudol y Gymraeg, ac felly ni fyddai rheithgorau dwyieithog yn arwain at drin grwpiau ieithoedd eraill yn yr un modd.

Cwestiwn 3: Sut dylid arfer y pŵer i orchymyn rheithgor dwyieithog, ar ba gam a gan bwy? Pa un o'r dewisiadau a roddir neu gyfuniadau o'r dewisiadau yw'r gorau? A oes dewisiadau ymarferol eraill?

Cafwyd ystod eang o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Yng nghyswllt y **meini prawf** ar gyfer penodi rheithgor dwyieithog, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau (19) o'r farn mai'r hyn a oedd ei angen oedd cyfuniad o'r dewisiadau yn y papur. Ni chafwyd un farn yr oedd y mwyafrif yn ei rhannu.

Roedd wyth ymatebydd yn ffafrio dim un o'r dewisiadau. Fodd bynnag, roedd y rhain yn disgyn i ddau grŵp, ar y naill begwn a'r llall o'r ddadl. Roedd y grŵp cyntaf o'r farn y dylid penodi rheithgor dwyieithog yn awtomatig i bob pwrpas, felly nid oedd angen ystyried dim meini prawf ymlaen llaw.

Roedd grwpiau a chanddynt ddiddordeb yn yr iaith Gymraeg yn tueddu i ffafrio naill ai hawl absoliwt neu ragdybiaeth gref o blaid rheithgor dwyieithog petai cais yn cael ei wneud. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn dadlau yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 y dylid cael hawl diamod bod rheithgor dwyieithog ar gael i bob parti.

Ar y llaw arall, roedd y rheini a oedd yn erbyn egwyddor rheithgorau dwyieithog hefyd yn debygol o ddweud nad oeddent yn ffafrio dim un o'r dewisiadau o ganlyniad i'w safbwynt sylfaenol.

O'r rheini a oedd yn ffafrio dewisiadau penodol, roedd y rhan fwyaf (5) yn ffafrio Dewis 2 a fyddai'n galluogi penodi rheithgor dwyieithog petai hynny er budd cyfiawnder. Mewn un achos, roedd hyn yn cael ei gyfuno â Dewis 1 (prawf y byddai tystiolaeth allweddol neu sylweddol yn cael ei rhoi yn Gymraeg) ac mewn un achos arall, roedd wedi cael ei gyfuno â Dewis 4 (prawf ar sail iaith y diffynnydd fel y gwelir yng Nghanada). Un ddadl a gyflwynwyd oedd bod y prawf budd cyfiawnder wedi cael ei sefydlu ac yn gyfarwydd.

Roedd Bar Cylchdaith Cymru a Chaer o'r farn y byddai'r prawf budd cyfiawnder mewn unrhyw achos yn mynnu bod y dewisiadau eraill yn cael eu

hystyried gan y barnwr fel rhan o ymarfer cydbwyso cyffredinol wrth benderfynu a ddylid penodi rheithgor dwyieithog ai peidio. Mynegwyd y farn hefyd y dylid cael rhagdybiaeth o blaid caniatáu cais am reithgor dwyieithog oni bai fod hynny'n mynd yn groes i fuddiannau cyfiawnder.

Roedd tri o'r ymatebwyr yn ffafrio cyfuniad o'r pedwar dewis.

Dim ond un ymatebydd oedd yn ffafrio Dewis 1 (prawf tystiolaeth) ar ei ben ei hun. Roedd un ymatebydd, aelod o'r farnwriaeth, yn meddwl mae'r ffaith syml y byddai tystiolaeth yn cael ei chyflwyno yn Gymraeg oedd y cyfan a oedd ei angen ac roedd yn gwrthwynebu defnyddio prawf i weld a fyddai'r dystiolaeth yn 'bwysig' neu'n 'arwyddocaol'.

Dim ond un ymatebydd oedd yn ffafrio Dewis 4 (y prawf diffynnydd) ar ei ben ei hun, ac roedd un arall yn ei ffafrio ar ôl ei gyfuno â Dewis 3 (prawf ar iaith y dioddefwr).

A throi at y **weithdrefn** ar gyfer penodi rheithgor dwyieithog, unwaith eto cafwyd safbwyntiau cymysg. O'r 18 o ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau, roedd y rhan fwyaf (6) yn ffafrio cyfuniad o Ddewis 2 (penodi rheithgor dwyieithog ar gais yr erlyniad) a Dewis 3 (penodi rheithgor dwyieithog ar gais yr amddiffyniad). Byddai'r cyfuniad hwn yn gwrthod Dewis 3 yn y papur, pŵer i'r barnwr benodi rheithgor dwyieithog ar ei gynnig ei hun.

Roedd nifer fawr o'r ymatebwyr (5) yn ffafrio cyfuniad o'r tri dewis, gan gynnwys y pŵer i'r barnwr benodi rheithgor dwyieithog ar ei gynnig ei hun.

Roedd pedwar ymatebydd yn ffafrio dim un o'r dewisiadau, roedd safbwyntiau yn fan hyn yn gymysg. Yn yr un modd â'r ymatebion a drafodwyd uchod ynghylch y meini prawf ar gyfer penodi rheithgor dwyieithog, roedd y grŵp hwn yn cynnwys y rheini a oedd o'r farn y dylid penodi rheithgor dwyieithog yn awtomatig i bob pwrpas, a fyddai'n hepgor yr angen i gyflwyno cais i farnwr, ac roedd y rheini a oedd yn erbyn rheithgorau dwyieithog mewn egwyddor hefyd yn gwrthod yr holl ddewisiadau a awgrymwyd yn y papur ar gyfer penodi un.

Roedd un ymatebydd yn ffafrio penodi rheithgorau dwyieithog dim ond ar gynnig y barnwr ei hun, ac roedd un arall o blaid dim ond caniatáu i'r amddiffyniad wneud cais a dim yr erlyniad.

Mater arall a godwyd gan y cwestiwn hwn oedd, pryd dylid penodi rheithgor dwyieithog. Cyflwynodd dros hanner yr ymatebwyr (13) sylwadau ar hyn. Roedd llawer o gefnogaeth ar gyfer delio â'r mater yn y Gwrandawiad Ple a Rheoli Achos. Roedd rhai eraill, er eu bod yn cyfeirio at y Gwrandawiad Ple a Rheoli Achos, yn teimlo y dylid trin â'r mater cyn hynny os oedd hynny'n bosibl, neu y dylai'r barnwr gael disgresiwn i benodi rheithgor dwyieithog yn nes ymlaen.

Mater pwysig y cyflwynodd nifer o'r ymatebwyr sylwadau arno oedd a ddylid cael hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y barnwr. Roedd y rheini a oedd yn gwrthwynebu hawl i apelio'n tueddu i feddwl y dylai penderfyniad y barnwr fod yn derfynol er mwyn cadw'r weithdrefn yn syml, ac nid oeddent yn credu bod rheithgor dwyieithog yn ffafrio'r naill barti na'r llall. Ar y llaw arall, mynegwyd y farn bod y mater yn ddigon pwysig i gyfiawnhau hawl i apelio.

Roedd nifer o'r ymatebwyr wedi cymharu'r penderfyniad a wneir gan y barnwr yn y cyd-destun hwn â'r weithdrefn bresennol ar gyfer cyflwyno "mesurau arbennig" mewn treial ar gyfer tystion agored i niwed neu dystion sy'n cael eu bygwth (e.e. gallu rhoi tystiolaeth ar fideo).

Cwestiwn 4: Ydych chi'n meddwl y gallai penodi rheithgorau dwyieithog olygu oblygiadau ehangach i dreialon Llys y Goron yng Nghymru? Os felly, beth ydynt?

Cyflwynodd pedwar ar bymtheg (19) o ymatebwyr sylwadau ar y mater hwn. Roedd y grŵp mwyaf (9) o'r farn y byddai'r newid yn arwain at oblygiadau ehangach. Roedd dau arall yn anghytuno y byddai goblygiadau ehangach, ac roedd un yn teimlo ei bod yn annhebygol.

Roedd saith arall wedi cyfyngu eu sylwadau i effaith y newid ar gofnodi'r treial. Dywedodd rhai na fyddai defnyddio rheithgorau dwyieithog yn golygu na fyddai angen cael gwasanaethau cyfieithu ar y pryd. Byddai dal angen y rhain ar gyfer unrhyw unigolion nad oeddent yn gallu'r Gymraeg ond a oedd yn ymwneud â'r treial, neu aelodau o'r cyhoedd yn yr ystafell llys.

Roedd yr ymatebwyr yn anghytuno ynghylch beth fyddai'r goblygiadau ehangach, hyd a lled unrhyw oblygiadau ac a fyddent yn fuddiol ynteu'n negyddol gan fwyaf. Caiff y sylwadau a wnaed eu crynhoi isod.

Roedd Dr Catrin Fflur Huws yn teimlo mai'r effaith fyddai rhoi statws gwell i'r Gymraeg yn y llysoedd. Soniodd Bar Cylchdaith Cymru a Chaer y byddai mwy o dystion yn defnyddio'r Gymraeg a dywedodd Gwasanaeth Erlyn y Goron y byddai mwy o ddioddefwyr ifanc yn ei defnyddio. Roedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn meddwl bod rheithgorau dwyieithog yn gatalydd er mwyn gwella mwy ar safonau gwasanaethau Cymraeg y llysoedd.

Teimlai Dr Huws y byddai'n arwain at arbedion ar gyfieithu ar y pryd ond y gallai fod cynnydd mewn costau petai angen gwasanaethu achos â sawl diffynnydd lle byddai un diffynnydd yn ddwyieithog a'r llall ond yn siarad Saesneg. Yn yr un modd dywedodd Gwasanaeth Erlyn y Goron y byddai'r broses treial yn cael ei chyflymu oherwydd na fyddai angen cyfieithu ar y pryd.

Roedd dau farnwr, EA y Barnwr Merfyn Hughes ac EA y Barnwr John Rogers yn pryderu ynghylch prinder barnwyr dwyieithog. Roedd y Barnwr Hughes yn teimlo y byddai hyn yn achosi oedi o ran gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

Mynegwyd y farn hefyd y byddai goblygiadau i ieithoedd eraill y tu allan i Gymru, gyda siaradwyr ieithoedd lleiafrifol eraill hefyd yn gofyn am reithgorau dwyieithog. Gwnaed y pwynt gan y Barnwr Roger Dutton a chafodd ei grybwyll yn ymateb Cyngor y Barnwyr Cylchdaith. Fodd bynnag, roedd pobl eraill yn dadlau na fyddai goblygiadau o'r fath oherwydd statws arbennig y Gymraeg.

Roedd Bar Cylchdaith Cymru a Chaer a Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi sôn am fwy o angen i drosglwyddo achosion i ffwrdd o'r llys lle cafodd y sawl a gyhuddir ei draddodi, mewn ardaloedd lle'r oedd siaradwyr dwyieithog yn lleiafrif o'r boblogaeth. Fodd bynnag, dadleuwyd hefyd y byddai digon o siaradwyr yn yr ardaloedd hyn hyd yn oed.

Roedd Cymdeithas y Gyfraith a Gwasanaeth Erlyn y Goron o'r farn y byddai angen cyffredinol i fwy o gyfranogwyr yn y broses treial fod yn ddwyieithog.

Cwestiwn 5: Pa ddewisiadau a roddir yn Rhan 7 y papur fyddai'r weithdrefn orau ar gyfer gwysio rheithgor dwyieithog? Beth yw eu rhinweddau a'u gwendidau cymharol? A oes dewisiadau ymarferol eraill?

Cyflwynodd 19 o'r 24 o ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. O'r rhain, roedd y rhan fwyaf (9) yn ffafrio Dewis 2 (defnyddio'r ffurflen gwysio rheithgor i ddewis rheithgor dwyieithog) ac roedd saith yn ffafrio Dewis 4 (defnyddio'r gofrestr etholiadol).

Roedd rhai o'r ymatebwyr a oedd wedi ffafrio'r Dewis mwyaf poblogaidd (2) yn derbyn y byddai anawsterau mewn ardaloedd lle na cheir llawer o siaradwyr Cymraeg. Awgrymwyd symud y treialon a oedd yn galw am reithgor dwyieithog i ardal gyda chyfran fwy o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, gan greu ardaloedd dalgylch mwy ar gyfer gwysio a chaniatáu mwy o amser ar gyfer y broses gwysio.

Roedd y rheini a oedd yn ffafrio Dewis 4 yn ei weld fel dull rhad a chyflym o ddod o hyd i reithwyr dwyieithog. Nid oeddent yn meddwl ei bod yn amhriodol casglu gwybodaeth nad oedd yn wybodaeth etholiadol gan fod cwestiwn eisoes wedi cael ei gynnwys ar y ffurflen am allu Saesneg rheithwyr.

Fodd bynnag, er nad oedd yn dangos ffafriaeth ar gyfer unrhyw un o'r tri dewis arall, roedd y Comisiwn Etholiadol yn gwrthwynebu Dewis 4, yn bennaf ar y sail y byddai'n cymhlethu'r ffurflen gofrestru etholiadol ymhellach gyda deunydd nad oedd yn ymwneud â chofrestru ar gyfer etholiadau, ac felly gallai rwystro'r cyhoedd rhag cofrestru. Roedd SOLACE Cymru (Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru) o'r un farn.

Roedd Bar Cylchdaith Cymru a Chaer hefyd yn gwrthwynebu Dewis 4. Roedd yn credu bod defnyddio'r gofrestr etholiadol yn tanseilio egwyddor dewis ar hap. Dywedodd: "Mae canfod a yw rheithwyr yn ddwyieithog ai peidio ar ôl iddynt gael eu dewis ar hap oddi ar y gofrestr etholiadol yn un peth. Ond mae'n beth cwbl wahanol pennu'r dewis ar hap ymlaen llaw i gronfa o bobl sy'n ddwyieithog."

Dim ond un ymatebydd oedd yn cefnogi Dewis 1 (dewis o banel mwy nag ar hyn o bryd); pan roddwyd rheswm am beidio â chefnogi'r dewis hwn,

anymarferoldeb ac anhwylustod galw paneli mawr iawn oedd hynny'n aml. Hefyd, dywedodd rhai ymatebwyr mai cost y dewis hwn oedd y rheswm.

Nid oedd unrhyw ymatebydd yn cefnogi Dewis 3 yn llawn chwaith (dewis ymlaen llaw er mwyn canfod siaradwyr Cymraeg), er bod un ymatebwr wedi awgrymu y gellid defnyddio rhyw fath o gyfuniad o'r holl ddewisiadau. Roedd pobl eraill hefyd yn feirniadol o Ddewis 3, er enghraifft oherwydd ei fod yn ddrutach ac nad oedd wedi'i gysylltu â'r angen am reithgor dwyieithog ar adeg ac mewn lleoliad penodol.

Materion eraill a godwyd

Yn y papur ymgynghori, lluniwyd cymariaethau ag awdurdodaethau tramor. Yn yr ymatebion, tynnwyd sylw at y sefyllfa yng Ngweriniaeth Iwerddon hefyd. Dan gyfansoddiad Iwerddon, roedd y Wyddeleg yn cael blaenoriaeth dros y Saesneg, ond yn cael ei siarad gan leiafrif o'r boblogaeth. Fodd bynnag, yn wahanol i Ganada, lle'r oedd rheithgorau dwyieithog yn bosibl, roedd Goruchel Lys Iwerddon wedi pennu nad oedd hawl i gael treial gerbron rheithgor a oedd yn siarad Gwyddeleg dan gyfraith Iwerddon. Yn ei ymateb, dywedodd Mr Gwynedd Parry:

"Roedd yr achos *MacCarthaigh v. Iwerddon* wedi delio â mater rheithgorau dwyieithog ar ei ben. Roedd MacCarthaigh ar dreial am ddwyn ac yn dymuno cynnal ei amddiffyniad drwy gyfrwng y Wyddeleg. Cyflwynodd gais am dreial gerbron rheithgor a oedd yn siarad Gwyddeleg, ac roedd yn dibynnu ar Erthygl 8 y Cyfansoddiad i'w gefnogi. Ymatebodd yr Erlyniad drwy gyfeirio at Erthygl 38.5 y Cyfansoddiad, sy'n gwarantu'r hawl i dreial gerbron rheithgor, ac i awdurdodau, gan gynnwys cyfraith achos Americanaidd, a oedd yn cefnogi egwyddor dewis ar hap. Gwrthododd yr Uchel Lys gais y diffynnydd am reithgor a oedd yn siarad Gwyddeleg, penderfyniad a gafodd ei gadarnhau wedyn gan y Goruchel Lys, yn bennaf ar y sail y byddai gwysio rheithgor sy'n siarad Gwyddeleg yn eithrio oddeutu wyth deg y cant o'r boblogaeth o'r gronfa o reithwyr cymwys, a bod hyn yn rhoi cymeriad cynrychioladol y rheithgor yn y fantol o ddifrif. Fodd bynnag, mae'r dyfarniad hwn wedi bod yn destun beirniadaeth, oherwydd nad yw i bob golwg yn cyd-fynd â safle'r iaith Wyddeleg yn ôl y cyfansoddiad fel iaith swyddogol gyntaf y Wladwriaeth."

Y Casgliad a’r camau nesaf

Mae'r Llywodraeth o'r farn mai'r prif gwestiwn yw a yw rheithgorau dwyieithog yn iawn mewn egwyddor. Nid yw'r materion ymarferol mor bwysig – er nid yw'r rhain yn ddibwys ac maent yn effeithio rhywfaint ar yr egwyddor.

Mae'r system rheithgor yn bwysig yn y Deyrnas Unedig. Treialon troseddol yw'r fforwm ar gyfer datrys nifer o anghydfodau rhwng y wladwriaeth a'r unigolyn. Mae cael treial am drosedd difrifol gan eich cyd-ddinasyddion yn hawl bwysig, yn enwedig mewn gwlad heb gyfansoddiad ysgrifenedig.

Caiff rheithgorau eu dewis ar hap o'r gymuned gyfan. Daw llawer o awdurdod y system rheithgor a hyder cyffredinol y cyhoedd ynddi o'i natur gymdeithasol gynhwysol. Ni chaiff aelodau'r cyhoedd eu heithrio o wasanaeth rheithgor oherwydd eu rhyw, cyfoeth, dosbarth, addysg nac unrhyw ffactor amherthnasol arall. Pobl gyffredin sydd ar reithgor. Mae dewis ar hap yn golygu bod rheithgor yn cynrychioli cymdeithas drwyddi draw. Mae'n helpu i roi annibyniaeth a diduedd rwydd i'r rheithgor, sy'n elfennau hollbwysig ar gyfer treial teg a thrwy hynny gyfiawnder ei hun.

Ceir llinyn cyswllt rhwng elfen gynyddol natur ar hap dewis rheithgorau a chynyddu democratiaeth. Dros y canrifoedd, bu'r cyfeiriad hanesyddol at fwy o gynhwysiant cymdeithasol wrth ddewis rheithgorau. Er enghraifft, cafodd y cymhwyster eiddo ar gyfer gwasanaeth rheithgor ei ddileu amser maith yn ôl ac ni chaiff menywod eu heithrio o'r rheithgor mwyach fel yr arferai ddigwydd. Mae'r datblygiadau hyn wedi digwydd law yn llaw â democrateiddio cymdeithas yn fwyfwy yn y tymor hir.

Mae'r patrwm tymor hir at ddewis rheithgorau ar fwy o hap wedi cael ei gryfhau ymhellach dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003, a gyflwynwyd gan y Llywodraeth hon, yn cael gwared yn llwyr bron â'r rhesymau a oedd yn weddill dros eithrio rhywun o wasanaeth rheithgor (y nifer fach o eithriadau oedd, er enghraifft, pobl â chofnodion troseddol penodol).

Y prif wrthwynebiad i reithgorau dwyieithog bob amser fu y byddent yn amharu ar yr egwyddor allweddol hon o ddewis ar hap. Petai rheithgorau dwyieithog yn cael eu cyflwyno yng Nghymru, mae'n debyg mai dim ond mewn lleiafrif

bach o dreialon y byddent yn cael eu defnyddio. Fodd bynnag, pan fyddent yn cael eu defnyddio, byddent yn cael eu cyfyngu i'r lleiafrif o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg a Saesneg. Ar yr wyneb, byddai rheithgorau dwyieithog yn mynd yn gwbl groes nid yn unig i'r datblygiad hanesyddol tymor hir o blaid mwy o gynhwysiant cymdeithasol wrth ddewis rheithgorau, ond hefyd ddatblygiadau diweddar sydd wedi cael eu hyrwyddo gan y Llywodraeth bresennol.

Byddai rheithgorau dwyieithog yng Nghymru yn amharu'n sylweddol ar yr egwyddor o ddewis rheithgorau ar hap. Yn ôl canlyniadau cyfrifiad 2001, dywedodd 21% o bobl Cymru eu bod yn gallu siarad Cymraeg (o ba lefel neu ddefnydd bynnag). Byddai hyn yn golygu y byddai oddeutu pedwar rhan o bump o boblogaeth Cymru yn cael ei heithrio o'r rheithgor mewn pob achos a fyddai'n defnyddio rheithgor dwyieithog.

Ar ben hynny, roedd ymchwil a gynhaliwyd fel rhan o adroddiad 2007 y Weinyddiaeth Gyfiawnder i "Amrywiaeth a Thegwch yn y System Rheithgor" wedi canfod bod canran fwy o lawer o boblogaeth Cymru yn dweud eu bod yn rhugl yn y Gymraeg yng nghyfrifiad 2001 nag mewn arolwg gwysio a gynhaliwyd fel rhan o'r ymchwil. Mae'r cyfrifiad yn dangos bod 16.5% o'r boblogaeth yng Nghymru yn siarad, yn darllen ac yn ysgrifennu Cymraeg. Ni chafodd hyn ei adlewyrchu yng nghyfran y rheini a gafodd eu gwysio i wasanaethu yn llysoedd Cymru a ddywedodd eu bod yn rhugl yn y Gymraeg (ffigur is o lawer sef 6.4%). Ar sail yr ymchwil hwn, petai rheithgorau dwyieithog yn cael eu defnyddio, byddent yn eithrio ymhell dros naw rhan o ddeg o boblogaeth Cymru.

Mae pob ymyrraeth gyda'r egwyddor o ddewis ar hap yn disodli naill ai mwyafrif y boblogaeth (yn yr achos hwn, siaradwyr Saesneg, gan gynnwys y rheini nad ydynt yn gwybod digon o Gymraeg) neu ryw leiafrif. Awgrymwyd yng nghyd-destun rheithgorau dwyieithog oherwydd, er enghraifft, bod y rhan fwyaf o siaradwyr Cymraeg yn wyn, gellid dadleoli rhai aelodau du a lleiafrifoedd ethnig o'r boblogaeth ac o ganlyniad ni fyddai rheithgorau dwyieithog yn cynrychioli amrywiaeth ethnig lawn Cymru.

Caiff cynigion eraill ar gyfer ymyrryd ar yr egwyddor o ddewis ar hap eu gwneud o bryd i'w gilydd ac wedyn eu gwrthod. Er enghraifft, dadleuir ar adegau y dylai rheithgorau gynnwys nifer penodol o reithwyr proffesiynol a benodir, oherwydd nad oes gan aelodau cyffredin o'r cyhoedd ddigon o arbenigedd i benderfynu ar dreialon. Ni fyddai hyn yn cyd-fynd â'r egwyddor o ddewis ar hap.

Felly, y cwestiwn sy'n deillio o'r ymgynghoriad yw, a oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn cefnogi rheithgorau dwyieithog mewn egwyddor yn cyflwyno dadleuon a fyddai'n cyfiawnhau peidio â defnyddio dewis ar hap yng nghyd-destun rheithgorau dwyieithog.

Darparwyd dwy brif ddadl ynghylch pam y dylid diystyru egwyddor dewis rheithgorau ar hap yn achos rheithgorau dwyieithog. Y cyntaf oedd bod y gwaharddiad cyfreithiol presennol ar ddewis rheithgor dwyieithog yng Nghymru yn anghyson â deddfwriaeth sy'n rhoi'r hawl i'r rheini sy'n cymryd rhan mewn treialon yng Nghymru ddefnyddio'r Gymraeg yn y llys. Yr ail oedd y byddai rheithgorau dwyieithog yn golygu bod modd rhoi'r dystiolaeth orau, hynny yw y byddai tyst neu siaradwr arall sy'n defnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg bob amser yn cael ei ddeall yn uniongyrchol gan y rheithgor, yn hytrach na drwy gyfieithydd ar y pryd.

Gyda golwg ar y ddadl gyntaf, nid yw'r cyfeiriad at statws cyfreithiol presennol y Gymraeg yn dwyn perswâd. Ceir hefyd ddeddfwriaeth ar ddewis rheithgor sy'n egluro na ellir newid gweithdrefnau dewis rheithgor i gynhyrchu rheithgor a fyddai'n cynnwys aelodau o unrhyw grŵp cymdeithasol penodol, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg. A dweud y gwir, ni chafodd y ddeddfwriaeth rheithgorau, Deddf Rheithgorau 1974 ei diwygio o ganlyniad i ddeddfiad Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

A throi at gwestiwn y dystiolaeth orau, mae'n bwynt dadleuol a gaiff tystiolaeth ei deall yn well yn uniongyrchol, yn hytrach na drwy gyfieithydd ar y pryd proffesiynol, pan ddefnyddir dwy iaith mewn treial. Yn sicr, byddai'n rhaid cael lefel uchel iawn o ddealltwriaeth o'r ddwy iaith – dwyieithrwydd perffaith i bob pwrpas – er mwyn gallu deall tystiolaeth a roddwyd yn y ddwy iaith yn well na fyddai rhywun yn gallu deall iaith wannach rhywun drwy gyfieithydd ar y pryd proffesiynol.

Rhaid cwestiynu faint o siaradwyr Cymraeg a Saesneg fyddai'n meddu ar y lefel uchel hon o ddwyieithrwydd (gan ystyried yr wybodaeth ystadegol a nodir uchod). A dweud y gwir, gallai rheithiwr dwyieithog deimlo ei bod yn rhaid iddo wrando heb ddefnyddio'r cyfieithydd ar y pryd ac wedyn efallai y byddai'n deall llai nag y byddai drwy gyfieithydd ar y pryd, gan godi'r risg o gamweinyddu cyfiawnder. Nid yw'r ddadl ar sail tystiolaeth wedi llwyddo.

Y wlad sydd yn y sefyllfa ieithyddol debycaf i Gymru mae'n debyg yw Gweriniaeth Iwerddon. Mae'r Llywodraeth yn nodi bod Goruchel Lys Iwerddon (MacCarthaigh v. Iwerddon [1998] IESC 11; [1999] 1 IR 186 15fed Gorffennaf, 1998) wedi penderfynu nad oes dim hawl dan gyfansoddiad Iwerddon i gael treial gerbron rheithgor sy'n siarad Gwyddeleg. Yn bennaf roedd y dyfarniad yn seiliedig ar ddadleuon dewis ar hap.

Mae'r dyfarniad hwn yn arbennig o drawiadol oherwydd bod gan y Wyddeleg sefyllfa gyfansoddiadol ffurfiol fel iaith gyntaf Gweriniaeth Iwerddon, a'r Saesneg yn ail iaith, yn hytrach na bod y Wyddeleg a'r Saesneg yn cael eu trin yn weddol gyfartal fel y gwelir gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yng Nghymru. Mae'r Llywodraeth yn nodi hefyd mai'r erlyniad a heriodd yr hawl i gael treial gerbron rheithgor a oedd yn siarad Gwyddeleg yn achos MacCarthaigh, a bod troseddau yn Iwerddon yn cael eu herlyn yn enw'r bobl. Roedd Iwerddon wrth gwrs yn wlad annibynnol adeg y dyfarniad.

Dylid hefyd cyflwyno rhai sylwadau ynghylch ymarferoldeb dewis rheithgor o ganran cymharol fach o'r boblogaeth. Mae hyn yn dir dieithr. Mae'r rhan fwyaf o siaradwyr Cymraeg yn byw y tu allan i brif ardaloedd poblogaeth Cymru, sy'n codi posibilrwydd gorfod trosglwyddo treialon neu fynnu bod rheithwyr yn teithio y tu allan i'w dalgylchoedd arferol. Gallai trefniadau o'r fath achosi trafferthion i reithwyr, i dystion, i ddioddefwyr, i ddiffynyddion ac i dreialon yn gyffredinol. Byddai amhariad o'r fath yn mynd yn groes i ymdrechion y Llywodraeth i wneud treialon yn gyflymach ac yn fwy effeithlon.

Mae'n anodd datrys mater rheithgorau dwyieithog oherwydd mae'n un o'r pynciau hynny'n golygu dewis rhwng dau beth da – yn yr achos hwn, y system rheithgor a'r iaith Gymraeg. Y cwestiwn yw, ble mae'r cydbwysedd cyffredinol yng nghyswllt y mater penodol. Y tro hwn, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu peidio â derbyn y cynnig, yn bennaf oherwydd bod cydbwysedd y ddadl yn gorwedd yn erbyn effaith negyddol rheithgorau dwyieithog ar ddewis rheithgor ar hap o'r gymuned yn ei chyfanrwydd ac felly ar gynhwysiant cymdeithasol ac ar gyfiawnder.

Manylion cysylltu Cydlynydd yr Ymgynghoriad

Os oes gennych gŵyn neu sylw am y **broses** ymgynghori, yn hytrach nag am y pwnc y mae'r papur hwn yn ymwneud ag ef, dylech gysylltu â Julia Bradford, Cydlynydd Ymgynghoriad y Weinyddiaeth Cyfiawnder, ar 020 3334 4492 neu anfonwch e-bost ati yn consultation@justice.gsi.gov.uk.

Neu, efallai yr hoffech ysgrifennu i'r cyfeiriad isod:

Julia Bradford
Consultation Co-ordinator
Ministry of Justice
102 Petty France
London SW1H 9AJ

Os yw eich cwynion neu eich sylwadau'n cyfeirio at y pwnc a drafodir yn y papur hwn yn hytrach na'r broses ymgynghori, cyfeiriwch hwy, os gwelwch yn dda, at yr unigolyn cyswllt a nodir ar ddechrau'r papur hwn.

Meini prawf yr ymgynghoriad

Dyma'r saith maen prawf ar gyfer ymgynghori:

5. **Pa bryd y dylid ymgynghori** – Dylid ymgynghori'n ffurfiol pan fydd cyfle i ddylanwadu ar ganlyniad y polisi.

6. **Hyd yr ymarferion ymgynghori** – Fel rheol, dylai ymgynghoriadau barhau am 12 wythnos o leiaf a gellid ystyried amserlen hwy os yw hynny'n ymarferol ac yn synhwyrlon**.**

7. **Eglurder ynglŷn â'r cwmpas a'r effaith** – Dylai dogfennau ymgynghori fod yn glir ynglŷn â'r broses ymgynghori a'r hyn a gynigir, ynglŷn â'r gallu i ddylanwadu ac ynglŷn â chostau a buddiannau disgwyliedig y cynigion.

8. **Hwylustod yr ymarferion ymgynghori** – Dylid cynllunio ymarferion ymgynghori er mwyn iddynt fod yn hwylus i'r bobl y bwriedir eu cyrraedd, a dylid eu targedu'n glir at y bobl hyn.

9. **Baich ymgynghori** – Mae'n hanfodol cadw'r baich mor ysgafn ag y bo modd er mwyn i'r ymgynghoriadau fod yn effeithiol ac er mwyn sicrhau bod y rhai yr ymgynghorir â hwy'n ymroi i'r broses.

10. **Ymatebolrwydd ymarferion ymgynghori** – Dylid dadansoddi ymatebion i ymgynghoriad yn ofalus gan roi adborth clir i'r rhai sydd wedi cymryd rhan ar ôl yr ymgynghori.

11. **Dulliau ymgynghori** – Dylai swyddogion sy'n cynnal ymgynghoriadau geisio arweiniad ynglŷn â sut i ymgynghori'n effeithiol a rhannu'r hyn y maent wedi'i ddysgu yn sgil y profiad.

Atodiad A – Rhestr o’r ymatebwyr

Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Cyngor Barnwyr Cylchdaith ei Mawrhydi

Cymdeithas y Bar Troseddol

Gwasanaeth Erlyn y Goron

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Dr. Catrin Fflur Huws

Prif Weinidog Cymru Rhodri Morgan

Heini Gruffudd

EA y Barnwr John Rogers CF

EA y Barnwr Dafydd Hughes

EA y Barnwr Merfyn Hughes CF

EA y Barnwr Philip Richards.

EA y Barnwr Roger Dutton

Y Barnwr Dewi Watkin Powell

Pwyllgor Cymru Cymdeithas y Cyfreithwyr

Pwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor ar yr Iaith Gymraeg

Mr Gwynedd Parry

Plaid Cymru

SOLACE Cymru (Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol)

Y Pwyllgor Sefydlog ar Gymru'r Gyfraith

Bar Cylchdaith Cymru a Chaer

Y Comisiwn Etholiadol

Yr Anrhydeddus Mr Roderick Evans

Grŵp Erlynwyr Whitehall

© Hawlfraint y Goron
Cynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder